

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras



Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

16/10/26
Annwyl Rieni,

Cystadleuaeth CogUrdd Blwyddyn 4/5/6- Bu dros 50 o blant blwyddyn 4/5/6 yn cystadlu ddoe yng nghystadleuaeth coginio CogUrdd yma yn yr Ysgol. Yr enillydd oedd Jac Jones, Blwyddyn 6 efo'i salad mozzarella. Llongyfarchiadau mawr iddo! Diolch i bawb fu'n cymryd rhan a hefyd i Mrs Eleri Edwards am feirniadu.

Pêl droed Merched Blwyddyn 5 a 6-Da iawn i'r ddau dîm fu'n cystadlu ar gaeau Clwb Pêl droed yn gynharach yn ystod yr wythnos- pawb wedi mwynhau'r profiad. Da iawn chi genod!

Nosweithiau Rieni- Diolch i bawb sydd wedi trefnu apwyntiadau ar gyfer nosweithiau rieni wythnos nesaf. Cofiwch gysylltu â'r swyddfa mewn da bryd i sicrhau apwyntiad.

Eisteddfod Llandyrnog- Pob dymuniad da i bawb sy'n cystadlu heno yn yr Eisteddfod. Diolch hefyd i Mrs Helen Williams a Miss Elin Parry am fynd yno hefyd efo'r Parti gwerin, parti cerdd dant a'r grŵp llefaru. Pob lwc i bawb!

CRHA- Cofiwch am Ddisgo Calan Gaeaf y Gymdeithas Rieni ac Athrawon sy'n cael ei gynnal dydd Iau nesaf- Hydref 22ain. Meithrin a Derbyn- 4.00-4.45yp a Blwyddyn 3-6 5.00-5.45yp. Cofiwch wisg ffansi. £3 yn daladwy ar Parent Pay. Diolch.
*Noder- **NI** fydd Clwb ar ol ysgol ar agor nos Iau gan fod y disgos ymlaen.

Cystadleuaeth Platiau Calan Gaeaf- Dyddiad cau'r gystadleuaeth dylunio plât yw 21/10/26. Beirniadir y gystadleuaeth ar fore Gwener, Hydref 23ain gan Miss Menna a Morfydd Jones. Diolch iddynt.

Cyngerdd Robat Arwyn, Mared Williams a Chorau Ysgol Pen Barras (17/10/26)- Pob dymuniad i bawb sy'n cymryd rhan yn y cyngerdd nos yfory yn Theatr John Ambrose. Plant i gyrraedd y Theatr **erbyn 5yh fan bellaf** ar gyfer ymarfer dechnegol. Bydd drysau'r theatr yn agor i'r gynulleidfa am **5.30yh**. Diolch i'r GRHA am drefnu'r raffl (cofiwch arian parod ar gyfer y raffl) ac i'r fyddin o wirfoddolwyr sy'n helpu stiwardio, trefnu'r maes parcio a chludo offer- chi'n sêr i gyd!

Diolch yn ddiffuant hefyd i'r staff ymroddgar sydd wedi bod yn prysur baratoi'r plant i berfformio- nid ar chwarae bach mae trefnu rhaglen o ganeuon i dros 100 o blant ar draws y corau!

Hanner tymor- Mae'r Ysgol yn cau ar gyfer hanner tymor ar ddydd Gwener, Hydref 23ain. Bydd yr Ysgol yn ail agor i bawb ar ddydd Llun, 2il o Dachwedd, 2026.

Yn gywir,

Dyfan Phillips
Pennaeth

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

Ysgol Pen Barras



Ffôn: 01824 704 129

E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk

Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

16/10/26

Dear Parents,

CogUrdd Cooking Competition (Years 4, 5 and 6) – Over 50 pupils from Years 4, 5 and 6 took part in the CogUrdd cooking competition held here at school yesterday. The winner was **Jac Jones (Year 6)** with his mozzarella salad. Many congratulations to him! Thank you to everyone who took part, and also to **Mrs Eleri Edwards** for judging the competition.

Girls' Football (Years 5 and 6) – Well done to both teams who competed at the football club grounds earlier this week. Everyone enjoyed the experience. Excellent effort, girls!

Parents' Evenings – Thank you to everyone who has already arranged appointments for next week's Parents' Evenings. Please remember to contact the school office as soon as possible if you still need to book an appointment.

Llandyrnog Eisteddfod – Best wishes to everyone competing this evening at the Eisteddfod. Thank you also to **Mrs Helen Williams** and **Miss Elin Parry** for accompanying the folk party, cerdd dant party and recitation group. Good luck to everyone!

PTA – Please remember the PTA Halloween Disco taking place next Thursday, **22 October**.

- Nursery and Reception: **4.00pm – 4.45pm**
- Years 3–6: **5.00pm – 5.45pm** Fancy dress is encouraged. The cost is **£3**, payable via ParentPay. Thank you. Please note- the After School Club will be closed on Thursday as the discos are held in the hall.

Halloween Plate Competition – The closing date for the plate design competition is **21/10/26**. The competition will be judged on the morning of **Friday, 23 October** by **Miss Menna** and **Morfydd Jones**. Our thanks to both of them.

Robat Arwyn, Mared Williams and Ysgol Pen Barras Choirs Concert (17/10/26) – Best wishes to everyone taking part in tomorrow evening's concert at **Theatr John Ambrose**. Children should arrive at the theatre **no later than 5.00pm** for the technical rehearsal. The theatre doors will open to the audience at **5.30pm**.

Thank you to the PTA for organising the raffle (please remember to bring cash for raffle tickets) and to the army of volunteers helping with stewarding, managing the car park and transporting equipment. You are all stars! A sincere thank you also to the dedicated staff who have worked so hard preparing the children for their performances. Organising a programme of songs for over 100 children across the choirs is no small task!

Half-Term – The school will close for half-term on **Friday, 23 October**. The school will reopen for all pupils on **Monday, 2 November 2026**.

Yours sincerely,
Dyfan Phillips
Headteacher